Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Y Morfa
Abergele
Conwy
LL22 7NU

15/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mai 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Glan Morfa yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol yn ogystal ag un o flaenoriaethau datblygu cyfredol yr ysgol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau her briodol i gefnogi disgyblion wneud cynnydd mewn gweithgareddau dysgu annibynnol

- Mae arweinwyr ac athrawon yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn ystyried sut mae'r profiadau dysgu yn yr ysgol yn herio disgyblion. Ar y cyd, maent wedi datblygu gweledigaeth glir a strategaethau addas i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.
- Mae arweinwyr yn darparu ystod fuddiol o brofiadau dysgu proffesiynol i athrawon. Maent yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i staff gydweithio i drafod ac arsylwi ar arferion addysgu effeithiol o fewn yr ysgol. Mae hyn, yn ei dro, yn eu cefnogi i ddarparu gweithgareddau sy'n herio a diwallu anghenion dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae athrawon yn darparu gweithgareddau wedi eu graddoli o ran her. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn esbonio'n aeddfed sut  maent yn dewis gweithgareddau sydd fwyaf priodol ar eu cyfer.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol yn briodol. Yn ogystal, maent yn defnyddio dulliau holi effeithiol sy'n annog disgyblion i ymestyn eu hymatebion yn rheolaidd. Mae'r pennaeth yn ymwybodol o'r angen i gysoni'r arferion hyn ymhellach.
- Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd herio eu hunain ac yn frwdfrydig i gwblhau tasgau'n annibynnol, pan fo'n briodol.

## Parhau i ddatblygu addysgeg o safon uchel ar draws yr ysgol

- Mae'r holl staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion sy'n creu amgylchedd dysgu pwrpasol a chefnogol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn diwallu eu hanghenion yn bwrpasol. Mae cymorthyddion yn atgyfnerthu amcanion yr ysgol yn fwriadus wrth gefnogi disgyblion yn ystod eu gweithgareddau dysgu.
- Trwy gynllunio pwrpasol, mae arweinwyr a staff yn darparu ystod briodol o weithgareddau ysgogol ar gyfer disgyblion ac yn cynnig profiadau creadigol a chyfoethog sy'n ennyn eu diddordeb. Mae staff yn cydweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adeiladu'n drefnus ar fedrau a gwybodaeth flaenorol disgyblion sydd, yn ei dro, yn ysgogi disgyblion i gyflawni'n dda yn eu dysgu.
- Un o nodweddion effeithiol yr addysgu yw'r modd mae staff yn rhannu nod y sesiynau dysgu ar gychwyn sesiynau dysgu. Trwy hyn, mae disgyblion yn derbyn canllawiau cytûn gan staff sy'n eu helpu i ddeall beth a ddisgwylir ganddynt wrth gwblhau eu gwaith.
- Mae'r amgylchedd dysgu yn ddeniadol ac yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn effeithiol. Ar draws yr holl ddosbarthiadau, mae ystod ddefnyddiol o adnoddau pwrpasol, fel y waliau dysgu, yn cefnogi disgyblion yn dda, ac mae eu cyflawniadau a'u gwaith yn cael eu dathlu'n gyson.
- Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i staff gyfrannu at sesiynau dysgu proffesiynol yn gyson a rhannu eu harbenigeddau. Mae'r cyfleoedd gwerthfawr hyn yn hyrwyddo cydweithio diwyd ag ysgolion lleol, gan gynnwys yr ysgol uwchradd, er mwyn cysoni dulliau addysgu mewn agweddau penodol, er mwyn hwyluso trefniadau pontio effeithiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn destun pryder ac wedi eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6622112

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol